ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymhelliannau Hyfforddi Athrawon yng Nghymru – Blwyddyn Academaidd 2020/2021

Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth rhif: 206/2020
Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2020
Yn disodli dogfen wybodaeth: Rhif 201/2019

Cymhelliannau Hyfforddi Athrawon yng Nghymru – Blwyddyn Academaidd 2020/2021

Y Gynulleidfa

Myfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau addysg gychwynnol athrawon (AGA) yng Nghymru ac eithrio myfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau TAR cyflogedig ac addysg a hyfforddiant ôl-orfodol TAR. Darparwyr AGA a phartïon eraill â diddordeb.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth am y cymhelliannau hyfforddi athrawon sydd ar gael yn y flwyddyn academaidd 2020/2021. Mae'n amlinellu cymhwysedd grant, y cyllid sydd ar gael a'r broses weinyddu gan gynnwys talu a gohirio/tynnu'n ôl.

Camau Gweithredu

Rhaid i bob myfyriwr AGA sy'n bwriadu hawlio cymhelliant hyfforddiant addysgu ddarllen y ddogfen wybodaeth hon ynghyd â'i hatodiadau.

Gwybodaeth Bellach

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Tîm addysg gychwynnol athrawon
Yr Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ITEIncentives@gov.wales

@WG_Education

Facebook/EducationWales

Copïau Ychwanegol

Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn lyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-blwyddyn-academaidd-2020-i-2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 Digidol ISBN XXXX WG39943

Cynnwys

1. Trosolwg 3

2. Cymhelliannau Hyfforddi Athrawon – Blwyddyn Academaidd 2020/2021 4

Tabl A – Cymhwysedd ar gyfer cymhelliant a'r swm sydd ar gael i addysgu yn y sector uwchradd 5

Tabl B - Cymhwysedd ar gyfer cymhelliant a'r swm sydd ar gael i'w addysgu yn y sector cynradd 5

3. Cymhwysedd a Gweinyddu'r Grant 6

Pa grantiau y dylid eu talu a phryd y dylid gwneud taliadau 7

Tabl C – Taliadau grant cymhelliant amser llawn 7

Tabl D – Tabl taliadau grant cymhelliant rhan amser 7

Sut y telir y grantiau hyfforddi 8

Gohirio, tynnu'n ôl ac ailddechrau 8

Adennill grantiau cymhelliant a dalwyd 8

4. Cwestiynau cyffredin 10

Atodiad A: Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2020 11

Atodiad B: Hysbysiad Preifatrwydd 17

1. Trosolwg

1.1 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adrannau 14–17 o Ddeddf Addysg 2002 i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer hyrwyddo recriwtio neu gadw athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu.

1.2 Cafodd y Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2020 (2020 Rhif WG20-005) ("y Cynllun") ei wneud gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu pwerau ar 18 Chwefror 2020. Atodir copi o'r Cynllun yn Atodiad A i'r canllawiau hyn.

1.3 Mae'r cynllun yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru dalu grantiau fel cymhelliannau i bersonau cymwys ymgymryd â chwrs Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) ôl-raddedig mewn pynciau penodedig. Daw'r Cynllun i rym ar 1 Medi 2020 ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020/21 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

1.4 Cyhoeddir y canllaw gwybodaeth anstatudol hwn mewn perthynas â chymhellion hyfforddi athrawon gan Weinidogion Cymru o dan adran 10 o Ddeddf Addysg 1996; cyfeirir ato ym mharagraff 3 o'r Cynllun. Paratowyd y canllaw gwybodaeth hwn i gynorthwyo myfyrwyr a darparwyr AGA achrededig sy'n cyflawni unrhyw swyddogaeth o dan y Cynllun. Mae'n amlinellu pa gyllid sydd ar gael, pwy sy'n gymwys i gael grant, a sut y gwneir taliadau. Nid yw'n ymdrin â phob agwedd; mae'r Cynllun yn cynnwys gwybodaeth lawn am gymhwysedd ac amodau, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r canllaw gwybodaeth hwn i gadarnhau bod grant ar gael.

1.5 Daw'r cynllun i rym ar 1 Medi 2020. Mae'r canllaw gwybodaeth hwn yn ymwneud â myfyrwyr yng Nghymru sydd, rhwng 1 Medi 2020 a 31 Awst 2021, yn cychwyn cyrsiau AGA sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC) mewn pynciau penodedig. Rhaid i bob rhaglen AGA sy'n arwain at SAC gael ei hachredu gan Fwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg[1].

1.6 Nid yw'r canllaw gwybodaeth hwn yn ymdrin â chymhellion a gynigir ar gyrsiau sy'n galluogi unigolion i addysgu yn y Sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol.

[1] Cyfeirir atynt yn Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017 fel pwyllgor achredu hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol

2. Cymhelliannau Hyfforddi Athrawon – Blwyddyn Academaidd 2020/2021

2.1 Mae cymhelliannau hyfforddi athrawon yn grantiau sydd ar gael i bersonau cymwys sy'n dilyn cwrs AGA ôl-raddedig yng Nghymru ("grantiau cymhelliant") sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC). Mae grantiau cymhelliant hyfforddi athrawon ar gael i ddenu unigolion i hyfforddi i fynd i mewn i'r proffesiwn addysgu, ac i aros ynddo, ac ni ddylid eu hystyried fel rhan o'r pecyn cyllid myfyrwyr.

2.2 Mae cyfeiriadau yn y canllawiau hyn at gyrsiau AGA ôl-raddedig neu TAR yn cynnwys y cymwysterau canlynol – Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg, Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion a Diploma Ôl-raddedig mewn Addysg.

2.3 Ni thelir grant cymhelliant i berson sy'n ymgymryd ag unrhyw gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth gan gynnwys y TAR â chyflog.

2.4 Ni thelir grant cymhelliant i unrhyw un oni bai ei fod wedi gwneud cais drwy gwblhau'r ffurflenni perthnasol drwy ei ddarparwr AGA. Mae'r ffurflenni hyn yn cynnwys gwybodaeth y mae Gweinidogion Cymru ei hangen er mwyn gweinyddu a gwerthuso'r cynllun.

2.5 Mae Tablau A a B (tudalen 4) yn dangos y swm grant cymhelliant sydd ar gael yn dibynnu ar bwnc/cyfnod a lefel cymhwyster ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020/2021. Yn amodol ar gymhwysedd, mae grantiau cymhelliant ar gyfer cyrsiau AGA ôl-raddedig yng Nghymru ar gael i fyfyrwyr sy'n:

(i) astudio yn gyfan gwbl neu'n bennaf un neu fwy o'r pynciau neu'r cyfnodau a restrir yn Nhabl A neu B; a
(ii) meddu, ar fynediad i'r cwrs AGA ôl-raddedig, radd neu gymhwyster cyfatebol a ddyfarnwyd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig, neu radd gyfwerth neu gymhwyster arall cyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad tramor, o ddosbarthiad a bennir yn Nhabl A neu B.

2.6 Ar gyfer personau cymwys sy'n dechrau ar gyrsiau cynradd ôl-raddedig ym mlwyddyn academaidd 2020/21, bydd £3,000 yn ychwanegol ar gael. I fod yn gymwys i dderbyn y cyllid ychwanegol, bydd y myfyrwyr yn meddu ar arbenigedd pwnc gradd mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, neu wyddoniaeth graidd, yn ogystal â'r radd a ddangosir yn Nhabl B. Mae'r ychwanegiad hwn yn daliad ychwanegol er mwyn cefnogi arbenigeddau pwnc ym mhynciau craidd ysgolion cynradd.

2.7 Nid yw'n ofynnol bod y radd neu'r cymhwyster cyfatebol a bennir yn Nhabl A neu B yn yr un pwnc â'r hyn a wnaed ar y cwrs AGA ôl-raddedig a restrir.

Tabl A – Cymhwysedd ar gyfer cymhelliant a'r swm sydd ar gael i addysgu yn y sector uwchradd

Swm y grant cymhelliant	Pwnc	Dosbarthiad cymwysterau gradd
£20,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn Mathemateg, Ffiseg, Cemeg, Cymraeg neu Gyfrifiadureg	1af a/neu PhD/Meistr
£15,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn Ieithoedd Tramor Modern	1af a/neu PhD/Meistr
£10,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn Mathemateg, Ffiseg, Cemeg, Cymraeg neu Gyfrifiadureg	2.1
£6,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn Ieithoedd Tramor Modern	2.1
£6,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn Mathemateg, Ffiseg, Cemeg, Cymraeg neu Gyfrifiadureg	2.2
£3,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn Dylunio a Thechnoleg, Saesneg, Bioleg, Hanes, Addysg Grefyddol, Celf, Addysg Gorfforol, Cerddoriaeth, Drama, Astudiaethau Busnes, Astudiaethau Awyr Agored, Gwyddor Gyffredinol neu Ddaearyddiaeth	1af a/neu PhD/Meistr

Noder: Nid yw'n ofynnol i'r radd neu ddosbarthiad y cymhwyster cyfatebol a nodir uchod fod yn yr un pwnc â'r hyn a wnaed ar y cwrs AGA ôl-raddedig.

Tabl B - Cymhwysedd ar gyfer cymhelliant a'r swm sydd ar gael i'w addysgu yn y sector cynradd

Swm y grant cymhelliant	Pwnc neu Gyfnod	Dosbarthiad cymwysterau gradd
£3,000	Cyrsiau cynradd ôl-raddedig	1af a/neu PhD/Meistr
Ychwanegiad o £3,000	Cyrsiau cynradd i ôl-raddedigion lle mae gan y radd flaenorol a gyflawnwyd arbenigedd pwnc mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg neu wyddoniaeth graidd	1af a/neu PhD/Meistr

***Nodyn am Dablau A a B**: O ran dosbarthiad y cymhwyster, nid yw graddau anrhydeddus o unrhyw fath yn cael eu cydnabod fel cymwysterau academaidd.*

3. Cymhwysedd a Gweinyddu’r Grant

3.1 Mae'r grantiau cymhelliant ar gael i bobl gymwys sy'n dechrau cyrsiau AGA ôl-raddedig priodol yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020/2021[2]. Rhaid i Gyngor y Gweithlu Addysg achredu rhaglen y cwrs, rhaid iddo arwain at ennill statws athro cymwysedig a chael ei redeg gan ddarparwr AGA. Mae'r grantiau cymhelliant ar gael i gyrsiau amser llawn a rhan-amser, ac eithrio TAR cyflogedig a TAR AHO.

3.2 Mae gan Weinidogion Cymru ddisgresiwn i beidio â thalu grant cymhelliant i fyfyrwyr sydd wedi'u derbyn ar gwrs AGA achrededig ar ôl i'r targed derbyn ar gyfer y cwrs hwnnw gael ei gyrraedd (fel y'i hysbyswyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg). Dylai myfyrwyr geisio cadarnhad gan eu darparwr AGA nad yw hyn yn effeithio arnynt.

3.3 Er mwyn bod yn gymwys i gael grant cymhelliant, rhaid:

(i) bodloni'r dosbarthiadau graddau cymhwyster a bennir yn Nhabl A neu Dabl B;

(ii) ymgymryd â hyfforddiant ar gwrs AGA achrededig yng Nghymru sy'n arwain at statws athro cymwysedig;

(iii) bod yn fyfyriwr cymwys sydd â hawl i gael cymorth o dan reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 sydd mewn grym ar hyn o bryd fel y maent yn gymwys i'r cwrs hwnnw[3];

(iv) peidio â bod yn athro cymwysedig eisoes;

(v) peidio â bod yn gyflogedig i addysgu mewn ysgol neu sefydliad arall fel athro;

(vi) peidio â bod yn gyfranogwr mewn hyfforddiant a drefnwyd o dan gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth, gan gynnwys y TAR â chyflog; a

(vii) peidio ag ymgymryd â chwrs addysg bellach o unrhyw fath ar y pryd.

---

[2] Mae blwyddyn academaidd yn rhedeg o 1 Medi i 31 Awst. Pe bai darparwr AGA yn gofyn i fyfyrwyr fynychu ysgol cyn i'r cwrs AGA ddechrau'n ffurfiol, ar yr amod bod y cwrs ei hun yn dechrau'n ffurfiol ar ôl 31 Awst 2020, ni fyddai mynychu'r ysgol yn golygu bod y myfyriwr yn anghymwys i gael y grant hyfforddi.

[3] Y rheoliadau sydd ar hyn o bryd yn berthnasol i'r ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd sy'n rhedeg o 1 Medi 2018 i 31 Awst 2019 yw Rheoliadau Addysg (cymorth i fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (os 2018 Rhif 191 (Cy. 42)). Bydd y Rheoliadau hyn yn parhau'n weithredol ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.

Pa grantiau y dylid eu talu a phryd y dylid gwneud taliadau

3.4 Ar gyfer cyrsiau llawn amser, bydd y grantiau cymell yn cael eu talu bob tymor mewn tri rhandaliad ar gyfer y cyfnod o fis Hydref i fis Mehefin. Dangosir y symiau yn Nhabl C (tudalen 6). Ar gyfer cyrsiau rhan amser, bydd y grant cymhelliant yn cael ei dalu bob tymor dros 6 rhandaliad dros ddwy flwyddyn academaidd. Dangosir y symiau yn Nhabl D (Tudalen 6). Bydd yr holl daliadau yn daladwy yn ystod wythnos olaf pob mis y caiff taliad ei nodi, neu o gwmpas hynny. Heblaw mis Rhagfyr lle gellir gwneud taliad yn gynnar.

3.5 Dylid gwneud y taliadau i fyfyrwyr yn ystod wythnos olaf y mis[4] y maent yn ddyledus. Y darparwyr sydd i benderfynu union ddyddiadau'r taliadau.

3.6 Ni ddylai taliadau gael eu gwneud ond i'r myfyrwyr hynny sy'n bresennol ar y cwrs ar y dyddiad talu. Os bydd unrhyw fyfyriwr wedi tynnu'n ôl neu wedi gohirio cwrs cyn y dyddiad talu, ni ddylid talu. Mae adran 3.14 yn cyfeirio at hyn.

Tabl C – Taliadau grant cymhelliant amser llawn

Swm y grant cymhelliant	Taliad yr Hydref i'w dalu ym mis Rhagfyr	Taliad gwanwyn i'w dalu ym mis Mawrth	Yr haf a'r taliad olaf i'w dalu ym mis Mehefin
£20,000	£5,000	£5,000	£10,000
£15,000	£3,750	£3,750	£7,500
£10,000	£2,500	£2,500	£5,000
£6,000	£1,500	£1,500	£3,000
£3,000	£750	£750	£1,500

Tabl D – Tabl taliadau grant cymhelliant rhan amser

Swm y grant cymhelliant	Blwyddyn 1			Blwyddyn 2		
	Taliad yr Hydref i'w dalu ym mis Rhagfyr	Taliad gwanwyn i'w dalu ym mis Mawrth	Yr haf a'r taliad olaf i'w dalu ym mis Mehefin	Taliad yr Hydref i'w dalu ym mis Rhagfyr	Taliad gwanwyn i'w dalu ym mis Mawrth	Yr haf a'r taliad olaf i'w dalu ym mis Mehefin
£20,000	£2,500	£2,500	£5,000	£2,500	£2,500	£5,000
£15,000	£1,875	£1,875	£3,750	£1,875	£1,875	£3,750
£10,000	£1,250	£1,250	£2,500	£1,250	£1,250	£2,500
£6,000	£750	£750	£1,500	£750	£750	£1,500
£3,000	£375	£375	£750	£375	£375	£750

[4] Ystyr "wythnos olaf" mis yw'r wythnos sy'n cynnwys diwrnod gwaith olaf y mis. Yr "wythnos olaf" ym mis Mehefin fydd yr wythnos sy'n cynnwys y diwrnod gwaith olaf ym mis Mehefin, neu'r wythnos y mae'r cwrs yn gorffen, os yw hynny ynghynt.

Sut y telir y grantiau hyfforddi

3.7 Bydd myfyrwyr cymwys yn cael y taliadau grant gan eu darparwyr AGA. (Mae Tablau A a B ar dudalen 4 yn nodi meini prawf cymhwysedd).

3.8 Ar gyfer y rhai sy'n gymwys i gael yr ychwanegiad, caiff taliadau eu gwneud gyda'r prif grant cymhelliant sy'n daladwy.

3.9 Mae'n ofynnol i bob myfyriwr cymwys sy'n dilyn cwrs AGA ôl-raddedig lofnodi ffurflen ddatganiad a fydd yn galluogi i grantiau cymhelliant gael eu talu. Bydd y darparwr AGA yn gyfrifol am gael y datganiadau wedi'u llofnodi; fel arfer, bydd hyn yn digwydd ar ddechrau cwrs. Bydd darparwyr AGA yn rhannu pob datganiad â Llywodraeth Cymru mewn modd diogel.

3.10 Dylid nodi bod y ffurflen datganiad fel y'i disgrifir yn adran 3.9 yn gofyn i'r myfyriwr gadarnhau ei fod wedi darllen a deall y wybodaeth yn y canllaw hwn. Os na chaiff y cadarnhad hwn ei wneud a'i rannu gyda Llywodraeth Cymru, ni ellir talu'r grant.

Gohirio, tynnu'n ôl ac ailddechrau

3.11 Os yw person cymwys wedi derbyn grant cymhelliant yn llawn neu'n rhannol o dan unrhyw gynllun blaenorol yng Nghymru, caiff y rhandaliadau o'r grant cymell hwn eu lleihau yn ôl swm y taliadau blaenorol a dderbyniwyd. Dim ond hyd at uchafswm y gwerth grant cymhelliant a nodir o dan Dabl A y mae gan fyfyrwyr cymwys hawl iddo. Mae hyn hefyd yn gymwys i grantiau a dderbyniwyd o dan unrhyw drefniadau yn Lloegr y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn berthnasol yn rhinwedd y cynllun hwn.

3.12 Os bydd myfyriwr yn gohirio ei astudiaethau yn ystod tymor, ni fydd yn gymwys i gael y taliad tymhorol hwnnw. Fodd bynnag, os bydd myfyriwr yn ailafael yn ei astudiaethau yn yr un flwyddyn academaidd, fe fydd ganddo hawl i gael taliad am y cyfnod a fethwyd, hyd at uchafswm y cymhelliant. O dan yr amgylchiadau hyn bydd taliad yn cael ei wneud ar ôl cwblhau ac yn ychwanegol at y taliad canlynol.

3.13 Os bydd myfyriwr yn ailafael mewn cwrs AGA mewn blwyddyn academaidd wahanol i'r un y dechreuodd ynddi, neu os bydd yn gohirio cwrs, parheir i wneud taliadau ar yr un gyfradd (os o gwbl) a oedd yn gymwys yn y flwyddyn academaidd y dechreuodd y myfyriwr arni i ddechrau, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

3.14 Bydd gan unigolion sy'n tynnu'n ôl o gwrs cyn iddo gael ei gwblhau, ac sy'n gymwys i gael grant cymhelliant, hawl i gael y taliad(au) tymhorol ar gyfer tymhorau y maent wedi'u cwblhau'n llawn yn unig.

Adennill grantiau cymhelliant a dalwyd

3.15 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i adennill grantiau cymhelliant a dalwyd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Mae ganddynt ddisgresiwn i arfer y pwerau hyn ai peidio, a byddant yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

3.16 Caniateir i'r pwerau hyn gael eu harfer gan Weinidogion Cymru:

(a) os bydd y derbynnydd, ar ôl cael unrhyw randaliad o grant cymhelliant, yn methu â chwrdd ag unrhyw feini prawf cymhwysedd a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ac a nodir yn yr Atodlen neu'r canllaw gwybodaeth mewn perthynas â rhandaliad dilynol; neu

(b) os yw'r derbynnydd, yn ei gais am grant cymhelliant, neu mewn cysylltiad â'r cais hwnnw, wedi darparu gwybodaeth anwir neu wybodaeth sy'n gamarweiniol; neu os oes tystiolaeth ddigamsyniol nad oedd y derbynnydd erioed wedi bwriadu cwblhau'r cwrs neu, ar ôl ei gwblhau, nad oedd yn fwriad ganddo fynd i addysgu.

4. Cwestiynau cyffredin

A yw'r grant cymhelliant yn drethadwy?

4.1 Mae Cyllid a Thollau (HMRC) yn adran anweinidogol o Lywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gasglu trethi. Nid yw grantiau cymhelliant fel arfer yn drethadwy i fyfyrwyr amser llawn, fodd bynnag, dylai myfyrwyr geisio cyngor gan Cyllid a Thollau ar eu hamgylchiadau unigol.

Beth fydd effaith y grant cymhelliant ar gymorth arall i fyfyrwyr?

4.2 Ni chaiff grant cymhelliant ei ystyried yn rhan o'ch incwm ar gyfer darpariaethau cyllid myfyrwyr sy'n seiliedig ar incwm y cartref. Felly, ni ddylid ei gynnwys wrth gyfrifo eich incwm trethadwy sydd heb ei ennill, fodd bynnag, dylai myfyrwyr geisio cyngor gan eu darparwr cyllid myfyrwyr ar eu hamgylchiadau unigol.

Beth fydd effaith y grant cymhelliant ar fudd-daliadau?

4.3 Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn un o adrannau Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi lles a phensiwn, dylech ofyn am gyngor ganddynt ar eich amgylchiadau unigol.

A fydd y grant cymhelliant yn sbarduno ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr?

4.4 Na, ddim os ydych yn dilyn cwrs llawn amser. Fodd bynnag, os ydych yn dilyn cwrs rhan-amser, bydd eich rhwymedigaeth yn dibynnu a ydych hefyd yn ennill cyflog (drwy waith nad yw'n gysylltiedig ag AGA) sy'n ddigon uchel i sbarduno ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr.

Gall ad-daliadau benthyciad gael eu sbarduno ar ôl i chi gwblhau eich cyrsiau, ennill SAC ac ennill cyflog fel athro.

A fydd gennyf hawl i'r grant cymhelliant 'Iaith Athrawon Yfory'?

4.5 Nid yw cymhwysedd i gael y grantiau cymhelliant o dan y cynllun hwn yn effeithio ar eich cymhwysedd i gael grant cymhelliant Iaith Athrawon Yfory. Mae'n bosibl cael arian grant o dan y ddau gynllun cymhelliant. Ceir rhagor o wybodaeth am gynllun cymhelliant Iaith Athrawon Yfory yn www.llyw.cymru

Rhagor o gwestiynau?

Os oes gennych gwestiwn pellach, cysylltwch â cymelldaliadauAGA@llyw.cymru

Atodiad A: Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2020

Addysg Cymru 2020 Rhif WG20-005.

Cefndir

1. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002 i gynnig cymorth ariannol ar gyfer hyrwyddo recriwtio neu gadw athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu ac ar gyfer darparu cyflog, neu fanteision eraill, i athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu. Gwneir Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2020 ("y Cynllun hwn") drwy arfer y pwerau hyn.

2. Daw'r Cynllun hwn i rym ar 1 Medi 2020 ac mae'n berthnasol i Gymru. Mae'r Cynllun hwn yn disodli Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2019 (2019 Rhif: 2) ("Cynllun 2019") mewn perthynas â'r rhai y mae eu rhaglen hyfforddi yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Medi 2019 ond cyn 1 Medi 2020. Bydd darpariaethau cynllun 2020 yn parhau i fod yn gymwys i bob Cynllun blaenorol a gychwynnodd cyn 1 Medi 2020.

I. Bydd darpariaethau Cynllun 2019 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2019 ond cyn 1 Medi 2020.
II. Bydd darpariaethau Cynllun 2018 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2018 ond cyn 1 Medi 2019.
III. Bydd darpariaethau Cynllun 2017 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2017 ond cyn 1 Medi 2018.
IV. Bydd darpariaethau Cynllun 2016 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2016 ond cyn 1 Medi 2017.
V. Bydd darpariaethau Cynllun 2015 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2015 ond cyn 1 Medi 2016.
VI. Bydd darpariaethau Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2014 (2014 Rhif: 7) yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2014 ond cyn 1 Medi 2015.
VII. Bydd darpariaethau Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2013 (2013 Rhif: 53) yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2013 ond cyn 1 Medi 2014.
VIII. Bydd darpariaethau Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2012 (2012 Rhif: 24) yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2012 ond cyn 1 Medi 2013.
IX. Bydd darpariaethau Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2011 (2011 Rhif: 19) yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2011 ond cyn 1 Medi 2012.
X. Bydd darpariaethau Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2010 (2010 Rhif: 27) yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2010 ond cyn 1 Medi 2011.
XI. Bydd darpariaethau Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2006 (2006 Rhif: 60), fel y'u diwygiwyd gan Gynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon (Diwygio) 2008 (2008 Rhif: 34) yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi cyn 1 Medi 2010.

3. Gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau anstatudol ar y Cynllun hwn o dan adran 10 o Ddeddf Addysg 1996 i gynorthwyo myfyrwyr a darparwyr rhaglenni

Addysg Gychwynnol i Athrawon achrededig sy'n arfer unrhyw swyddogaethau o dan y Cynllun hwn.

Crynodeb o'r Cynllun hwn

4. Wrth arfer pwerau Gweinidogion Cymru o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002, mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru dalu grantiau ar ffurf cymhellion i unigolion cymwys ddilyn cwrs ôl-raddedig hyfforddiant athrawon yng Nghymru mewn pynciau penodedig.

Dehongli

5. Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, at ddibenion y Cynllun hwn:-

mae "rhaglen hyfforddi athrawon ôl-raddedig achrededig" (*"accredited postgraduate teacher training programme"*) yn golygu rhaglen a achredwyd gan Fwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg[5], a sefydlwyd yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017;

mae "cyflogedig" (*"employed*") yn golygu o dan gontract cyflogaeth neu i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd arall heblaw o dan gontract cyflogaeth a dylid dehongli "cyflogaeth" (*"employment"*) yn unol â hynny;

ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" ("*employment-based teacher training scheme*") yw cynllun a wneir o dan reoliad 8 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 neu o dan unrhyw gynllun diwygiedig neu gynllun newydd a gyflwynwyd. Mae hyn yn cynnwys TAR cyflogedig (*salaried PGCE*);

mae i "athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig" (*"qualified teacher"*) yr ystyr a roddir i *"qualified teacher"* gan adran 132(1) o Ddeddf Addysg 2002: sef "a person who satisfies requirements specified in regulations"[6] a wnaed o dan yr adran honno;

ystyr "cwrs ôl-raddedig hyfforddiant athrawon" (*"postgraduate teacher training course"*) yw cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon ôl-raddedig achrededig amser llawn, rhan-amser neu hyblyg, a ddarperir mewn sefydliad yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn mae "hyblyg" yn dynodi bod hyd a phatrwm y cwrs wedi eu penderfynu yn ôl profiad ac anghenion hyfforddiant y myfyriwr.

Grantiau cymell

6. Caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau o dan y paragraff hwn ("grantiau hyfforddi") ar ffurf cymhellion i unigolion sy'n bodloni gofynion paragraff 8 a pharagraff 9.

7. Mae'r grantiau a roddir o dan y Cynllun hwn yn ddarostyngedig i'r amodau a bennir ym mharagraffau 12 i 17.

---

5 Y cyfeirir ato yn Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017 fel y pwyllgor achredu hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol.

6 Y Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd yw Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 (OS 2012/724 (Cy. 96)).

Pwy sy'n gymwys i gael grantiau hyfforddi

8. Er mwyn bod yn gymwys i gael grant hyfforddi, rhaid i'r unigolyn:-

   (a) ddilyn cwrs ôl-raddedig hyfforddiant athrawon yng Nghymru a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Medi 2020 ond cyn 1 Medi 2021;
   (b) bod yn fyfyriwr cymwys â hawl ganddo i gael cymorth o dan reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac sydd mewn grym ar y pryd, fel y mae'r rheoliadau hynny yn gymwys i'r cwrs hwnnw[3];
   (c) peidio â bod wedi cymhwyso fel athro neu athrawes eisoes;
   (d) peidio â bod wedi ei gyflogi i addysgu mewn ysgol neu sefydliad arall fel athro neu athrawes;
   (e) peidio â bod yn cymryd rhan mewn hyfforddiant a drefnwyd o dan unrhyw gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth, yn cynnwys TAR cyflogedig; a
   (f) peidio â bod yn dilyn cwrs addysg bellach o unrhyw fath.

9. Er mwyn bod yn gymwys i gael grant hyfforddi hyd at un o'r symiau a restrir yn nhabl A or B, rhaid i unigolyn:-

   (a) fod yn astudio, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, un neu ragor o'r pynciau neu'r cyfnodau a restrir yn nhabl A neu B; a
   (b) pan dderbynnir ef i'r cwrs ôl-raddedig hyfforddiant athrawon, bod yn ddeiliad gradd gyntaf neu gymhwyster cyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig neu radd gyfwerth neu gymhwyster arall cyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad tramor, o ddosbarth a nodir yn nhabl A neu B. Nid yw'n ofynnol bod y radd gyntaf neu'r cymhwyster cyfwerth yn yr un pwnc â'r pwnc sy'n cael ei astudio ar y cwrs ôl-raddedig hyfforddiant athrawon.

[3] Y Rheoliadau sydd, ar hyn o bryd, yn berthnasol i'r ddarpariaeth gymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd sy'n ymestyn o 1 Medi 2018 i 31 Awst 2019 yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (OS 2018 Rhif 191 (Cy. 42)). Bydd y Rheoliadau hyn yn parhau i fod mewn grym yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21.

10. Mae tablau A a B y cyfeirir atynt ym mharagraff 9 fel a ganlyn:

Tabl A	Sector Uwchradd	
Swm y grant hyfforddi	**Pwnc neu Gyfnod**	**Dosbarth y cymhwyster gradd gyntaf**
£20,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn mathemateg, ffiseg, cemeg, Cymraeg neu TGCh (cyfrifiadureg)	1af a/neu ddoethuriaeth/gradd Meistr
£15,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn ieithoedd tramor modern	1af a/neu ddoethuriaeth/gradd Meistr
£10,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn mathemateg, ffiseg, cemeg, Cymraeg neu TGCh (cyfrifiadureg)	2.1
£6,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn ieithoedd tramor modern	2.1
£6,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn mathemateg, ffiseg, cemeg, Cymraeg neu TGCh (cyfrifiadureg)	2.2
£3,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn dylunio a thechnoleg, Saesneg, bioleg, hanes, addysg grefyddol, celf, addysg gorfforol, cerddoriaeth, drama, astudiaethau busnes, astudiaethau awyr agored, y gwyddorau cyffredinol neu ddaearyddiaeth	1af a/neu ddoethuriaeth/gradd Meistr

Tabl B	Sector Cynradd	
Swm y grant hyfforddi	**Pwnc neu Gyfnod**	**Dosbarth y cymhwyster gradd gyntaf**
£3,000	Cyrsiau ôl-raddedig cynradd	1af a/neu ddoethuriaeth/gradd Meistr
Taliad atodol ychwanegol o £3,000	Cyrsiau ôl-raddedig cynradd gydag arbenigedd pwnc gradd mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg neu wyddoniaeth graidd	1af a/neu ddoethuriaeth/gradd Meistr

11. I unigolion sy'n dilyn cyrsiau ôl-raddedig cynradd a fydd yn cychwyn ym mlwyddyn academaidd 2020/21, dyfernir taliad atodol o £3,000 i hyfforddeion cynradd cymwys. I fod yn gymwys i dderbyn y taliad atodol, bydd myfyrwyr yn meddu ar radd dosbarth 1af a/neu ddoethuriaeth/gradd Meistr gydag arbenigedd pwnc mewn Cymraeg,

Saesneg, mathemateg neu wyddoniaeth graidd. Nod hyn yw codi safonau llythrennedd a rhifedd a chefnogi'r gwyddorau mewn ysgolion cynradd.

Amodau

12. Ni thelir grant i unigolyn o dan baragraff 6 oni fydd wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru ym mha bynnag ffurf, ar ba bynnag adeg a chan gynnwys pa bynnag fanylion y caiff Gweinidogion Cymru eu penderfynu.

13. Caiff Gweinidogion Cymru, yn ôl eu disgresiwn, beidio â thalu grant hyfforddi i unigolion a gafodd eu derbyn ar gwrs ôl-raddedig hyfforddiant athrawon yng Nghymru wedi i'r cwrs hwnnw gyrraedd y targed derbyn ar ei gyfer (fel y nodwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg).

14. Bydd gan unigolyn sy'n gymwys i gael grant hyfforddi ac sy'n ymuno â chwrs ôl-raddedig hyfforddiant athrawon sydd eisoes wedi cychwyn, neu sy'n ymadael â'r cwrs cyn ei gwblhau, yr hawl i gael y swm hwnnw o grant, yn unig, sy'n ddyledus ac yn daladwy yn ystod yr amser y mae'r unigolyn hwnnw'n dilyn y cwrs hyfforddi (yn unol ag unrhyw raglen daliadau a lunnir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd).

15. Bydd grantiau hyfforddi i fyfyrwyr sy'n cychwyn ar ôl gohirio'u cofrestriad yn cael eu talu ar y gyfradd grant hyfforddi (os oes un) sy'n gymwys ar gyfer y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn ymuno â'r cwrs, oni fydd Gweinidogion Cymru yn cytuno'n wahanol, yn ysgrifenedig.

16. Mae gan fyfyrwyr cymwys hawl i dderbyn uchafswm o grant cymell ar gyfer un flwyddyn academaidd (ar raddfa pro rata i fyfyrwyr rhan-amser). Os yw unigolyn cymwys wedi derbyn, naill ai'n llawn neu'n rhannol, grant cymhelliant neu unrhyw grant sy'n daladwy dan drefniadau unrhyw gynllun blaenorol, cyn 1 Medi 2020, dim ond hawl i'r grant cymhelliant sy'n weddill ar ôl ystyried nifer y rhandaliadau blaenorol a dderbyniwyd dan y grantiau hynny fydd ganddo. Mae hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw drefniadau yn Lloegr, y bodlonwyd Gweinidogion Cymru eu bod yn cyfateb i'r trefniadau a wnaed mewn perthynas â grantiau hyfforddi yn unol â'r Cynllun hwn.

17. Ni fydd myfyrwyr sy'n gadael cwrs yn parhau i dderbyn taliadau (yn unol ag unrhyw ganllaw ac amserlen dalu a gynhyrchir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd).

18. Caiff Gweinidogion Cymru fynnu bod rhan neu'r cyfan o unrhyw grant a dalwyd o dan baragraff 6 yn cael ei ad-dalu:-

    (a) os yw'r derbynnydd, ar ôl cael unrhyw randaliad o'r grant, yn methu â bodloni unrhyw feini prawf cymhwysedd a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rhandaliad dilynol;

    (b) os yw'r derbynnydd, yn ei gais am grant neu mewn cysylltiad â'r cais hwnnw, wedi darparu gwybodaeth ffug neu wybodaeth sy'n gamarweiniol mewn ffordd berthnasol;

    (c) os bydd tystiolaeth gadarn nad oedd derbynnydd y grant erioed yn bwriadu cwblhau'r cwrs neu, ar ôl ei gwblhau, fynd i addysgu.

Talu'r grant

19. Gellir talu grantiau o dan baragraff 6 naill ai mewn un cyfandaliad neu mewn pa bynnag nifer o randaliadau, ac ar ba bynnag adegau, a benderfynir gan Weinidogion

Cymru. Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu cyllid i sefydliad sy'n darparu rhaglen hyfforddi athrawon ôl-raddedig achrededig ar gyfer talu unigolyn sydd ar gwrs ôl-raddedig hyfforddiant athrawon, ar ba bynnag adegau a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

20. Bydd y tâl atodol ychwanegol a ddyfernir i hyfforddeion cymwys sy'n meddu ar radd gydag arbenigedd pwnc mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg, neu wyddoniaeth graidd ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig cynradd, a lle mae gan yr hyfforddeion radd dosbarth 1af a/neu ddoethuriaeth/gradd Meistr, yn cael ei dalu ar yr un pryd â'r prif grant cymell sy'n daladwy i hyfforddeion ôl-raddedig cynradd cymwys fel y nodir yn nhabl B.

Gweinyddu

21. Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu, i'r sefydliadau sy'n darparu rhaglenni hyfforddi athrawon ôl-raddedig achrededig sy'n cael cyllid o dan baragraff 18, grant o hyd at 2% o gyfanswm y cyllid hwnnw, yn gydnabyddiaeth am y costau gweinyddu a chostau eraill sy'n gysylltiedig â gwneud taliadau o dan y paragraff hwnnw. Bydd angen i'r sefydliadau, fel rhan o unrhyw arian grant, dalu sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (y cyfeirir atynt ym mharagraff 3).

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru



Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg
Dyddiad 18 Chwefror 2020

Atodiad B: Hysbysiad Preifatrwydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hysbysiad Preifatrwydd - Llywodraeth Cymru
Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon – blwyddyn academaidd 2020/21

Yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018, mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud â gwybodaeth y mae'n ei derbyn sy'n ymwneud â'r Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon.

Bydd yr wybodaeth yn yr hysbysiad hwn yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i gynnwys unrhyw newidiadau pellach y cawn wybod amdanynt gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

1. Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu ystod eang o gynlluniau grant er mwyn helpu i weithredu ein polisïau a chreu Cymru sy'n decach ac yn fwy ffyniannus. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael gwybodaeth am yr unigolion sy'n cymryd rhan yn y **Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon yng Nghymru**.

Ar ôl cael yr wybodaeth rydych yn ei rhoi ar y ffurflen gais, mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r data.

2. Pa wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chael?

Mae'r wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu a'i chadw yn cynnwys:

✓ Rhywfaint o wybodaeth bersonol amdanoch chi, megis:
- Enw
- Cwrs AGA a'i ddarparwr
- Rhif Myfyriwr
- Rhif athro
- Pwnc gradd, dosbarth y radd a'r brifysgol
- Swm y cymhelliant

3. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth?

Llywodraeth Cymru fydd y 'rheolwr data' ar gyfer unrhyw ddata personol sy'n cael eu darparu mewn perthynas â'r cais am grant/ hawliad neu gais am gyllid grant a gyflwynir gan eich prifysgol/darparwr cwrs AGA.

Fel rhan o'i chylch gwaith fel rheolwr data, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a gaiff at y dibenion isod. Mae'r prosesau hyn yn angenrheidiol ac yn unol ag Erthygl 6(1)(e) GDPR lle mae angen prosesu gwybodaeth er mwyn cyflawni gorchwyl er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i reolwr y data:-

a. At ddibenion y Cynllun Cymhelliant:-

- ✓ I lywio a gwella polisïau mewn perthynas â rhaglenni gradd ac ôl-raddedig AGA yng Nghymru, ac i ddylanwadu arnynt
- ✓ I helpu i fonitro cyllid a'i dargedu'n effeithiol.

b. At ddibenion cyllido (er mwyn sicrhau eich bod yn gymwys i gael y Grant Hyfforddi a'n bod yn cael gwybodaeth gywir er mwyn gwneud taliad):-

- ✓ Bydd y data uchod yn cael eu defnyddio i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid.
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i gynnal gwiriadau at berwyl atal twyll a gwyngalchu arian.
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i wirio eich hunaniaeth.
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i helpu i fonitro cyllid a'i dargedu'n effeithiol.

c. At ddibenion ystadegol ac ymchwil:

- ✓ I lywio a gwella polisïau addysg gan gynnwys ein Cynlluniau Cymhelliant
- ✓ I fonitro a targedu cyllid yn effeithiol
- ✓ I fonitro perfformiad y Cynlluniau Cymhelliant yn gyffredinol
- ✓ I gysylltu â setiau data eraill Llywodraeth Cymru a thrydydd partïon priodol, er mwyn cyfrannu at bolisïau addysg ehangach

4. Â phwy y mae Llywodraeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth?

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth amdanoch a gedwir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei rhannu a'i chysylltu â setiau data eraill os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny neu'n cael ei rhannu â chyflenwr trydydd parti sydd wedi'i gontractio i weithredu ar ran Llywodraeth Cymru.

Yr Unigolion neu'r Sefydliadau y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â nhw:

- ✓ Asiantaethau atal twyll
- ✓ Cyngor y Gweithlu Addysg
- ✓ Trydydd Partïon sydd wedi'u contractio i gynnal ymchwil cymeradwy ar ran Llywodraeth Cymru

Ni fydd Llywodraeth Cymru ond yn darparu data at ddibenion penodol ac am gyfnod cyfyngedig. Rhaid i'r sefydliad gadarnhau ei fod wedi dinistrio'r data ar ôl y cyfnod cyfyngedig hwnnw.

5. Am ba mor hir y byddwn yn cadw'r data hyn?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich gwybodaeth am hyd at 7 mlynedd ar ôl y dyddiad y bodlonwyd yr holl amodau sy'n berthnasol i'r grant ac y cafodd yr holl daliadau eu gwneud. Ar ôl y cyfnod hwnnw, bydd y data'n cael eu gwneud yn ddienw yn unol ag arferion gorau, a'u defnyddio at ddibenion ystadegau ac ymchwil yn unig.

6. Eich hawliau o dan GDPR

Mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- ✓ Gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu prosesu amdanoch chi;
- ✓ Ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gywiro unrhyw wallau yn y data hynny;
- ✓ Gwrthod (o dan rai amgylchiadau) i'r data gael eu prosesu am resymau sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi;
- ✓ Cyfyngu'r prosesu (o dan rai amgylchiadau);
- ✓ Cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael gwybod mwy am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR, cysylltwch â Llywodraeth Cymru. Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dyma'r manylion cyswllt:

	Swyddog Polisi Addysg Gychwynnol i Athrawon	***Swyddog Diogelu Data:***	***Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth***
Cyfeiriad:	Llywodraeth Cymru Parc Cathays CAERDYDD CF10 3NQ	Llywodraeth Cymru Parc Cathays CAERDYDD, CF10 3NQ	Wycliffe House Water Lane Wilmslow Swydd Gaer / Cheshire SK9 5AF
Rhif ffôn:	03000 615957	0300 0604400	029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)
Cyfeiriad e-bost / Gwefan:	ITEducationAddysgGA@llyw.cymru	Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru	www.ico.gov.uk